



Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

South Wales
Fire and Rescue Service


Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2020/2023



Cynnwys

Rhagair	3
Ein Gweledigaeth, Ein Cenhadaeth a'n Gwerthoedd	4
Ein Hardal	5
Amdanom Ni.....	6
O le daw ein Canlyniadau	7
Canlyniadau Cydraddoldeb Strategol	8-10
Beth sydd Nesaf a Chysylltwch â Ni.....	11
Lleisia dy farn.....	12



Rhagair



Huw Jakeway QFSM

Prif Swyddog Tân
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Croeso i Gynllun Cydraddoldeb Strategol Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) ar gyfer 2020/2023, sy'n nodi ein canlyniadau cydraddoldeb strategol ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Bydd y canlyniadau byddwch yn darllen amdanynt yn y ddogfen hon yn cael eu corffori ym mhopeth a wnawn, gyda phob cam corfforaethol a gymerir gennym yn ymwneud ag un neu fwy o ganlyniadau.

Mae'r ffordd hon o weithio'n caniatáu i ni fonitro'r gwelliannau a wneir gennym yn fwy cywir a datblygu'r gwasanaethau rydym yn darparu i'n holl gymunedau.

Rydych chi'n chwarae rôl allweddol wrth gyflawni ein gweledigaeth o **'wneud De Cymru'n ddiogelach wrth leihau risg'** ac rydym yn ymrwymedig i sicrhau eich bod yn parhau i saernïo'r modd mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n gweithredu nawr ac i'r dyfodol. Gall hwn fod wrth ddylanwadu ar beth allwn wneud i fod yn gyflogwr mwy cynhwysol, sut y cawn ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu'ch anghenion yn well neu wrth adnabod negeseuon diogelwch a all fod o help i chi.

Fel gwasanaeth cyhoeddus, rydym yn falch o wasanaethu'n holl gymunedau amrywiol ac rwy'n eich annog i'n hysbysu sut y cawn barhau i wneud hyn.

Fe'ch gwahoddaf i ddanfôn eich safbwyntiau ar y cynllun hwn atom, naill ai yn Gymraeg neu'n Saesneg, a rhowch wybod i ni os hoffech hwn ar ffurf copi papur neu fodd arall.

Diolch yn fawr.



EIN GWELEDIGAETH

“ I wneud
De Cymru'n
ddiogelach
wrth leihau
risg. ”



EIN CENHADAETH

Byddwn yn cyflawni hyn wrth:

- Wasanaethu anghenion ein cymunedau
- Weithio ag eraill
- Wynebu heriau wrth arloesi a gwella
- Leihau risg wrth addysgu, gorfodi ac ymateb
- Lwyddo i wneud De Cymru'n ddiogelach




EIN GWERTHOEDD

Diffinio'r hyn rydym yn sefyll drosti sef ein rheolau craidd.


Pryd bynnag y dewch i gysylltiad â'r Gwasanaeth, dylai'r gwerthoedd hyn fod yn amlwg ar bob adeg.

- Gofalgar
- Ymroddgar
- Disgybledig
- Grymus
- Proffesiynol
- Hydwyth
- Parchus
- Dibynadwy


Ein Hardal



Amdanom ni, Pwy rydyn ni'n eu gwasanaethu, Beth wnaethon ni



Yn 2018 - 2019 Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru:



O le daeth ein canlyniadau

Rydym am sicrhau gall ein canlyniadau gynnal newid a gwelliant gwirioneddol ac ystyrlon.

Felly, rydym wedi:

- Datblygu tabl sy'n nodi deddfwriaeth allweddol law yn llaw â'n Cynlluniau Strategol a Phobl
- Adnabod themâu cyffredin sy'n disgyn i'r tri chategori clir (Gwasanaethau, Pobl a Isadeiledd)
- Defnyddio'r themâu cyffredin hyn i ddatblygu ein Canlyniadau Cynllun Cydraddoldeb Strategol terfynol

Cynllun Strategol GTADC 2020/2030

Sicrhau ein bod yn darparu ymateb effeithlon, effeithiol a pherthnasol i'n cymunedau.

Cynllun Gwasanaethau Pobl

Maethu diwylliant sy'n seiliedig ar werthoedd gyda'i ganolbwynt ar amrywiaeth, cynhwysiant, llesiant ac ymgysylltu cadarnhaol.

Y Dyletswyddau Penodol Cymreig

Mae gan Awdurdodau ddyletswydd i gasglu ystod o wybodaeth cydraddoldeb i gyfrannu at y gronfa dystiolaeth hon.

Amcan Llywodraeth Cymru

Mae anghenion a hawliau'r rhai hynny sy'n rhannu Nodweddion Gwarchodedig yn flaenllaw wrth gynllunio a darparu.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2015)

Cymru o Gymunedau Cydlynus.
Cymru Fwy Cyfartal.

Cynllun Cydraddoldeb Strategol GTADC

Beth ydyn ni'n ei wneud: Gwasanaethau, Pobl ac Isadeiledd.

Canlyniadau Cydraddoldeb Strategol - Gwasanaethau

Beth fyddwn yn gwneud?

Sicrhau fod grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a chymunedau sydd ar y cyrion yn gynwysiedig o gychwyn y cynllunio a'r cyflenwi.

Byddwn yn cyflawni hyn wrth:

- Archwilio ffyrdd newydd o weithio i wella darpariaeth gwasanaethau
- Adeiladau ein cydberthnasau â grwpiau allanol a chwilio am eu mewnbwn ynglŷn â sut cawn eu gwasanaethu'n well
- Gweithio ag awdurdodau lleol, elusennau, cyrff iechyd a sefydliadau eraill i gyfuno adnoddau i ostwng 'blinder ymgynghori'
- Cynnwys cymunedau sydd ar y cyrion drwy ofyn iddynt am adborth ar yr hyn a wnawn
- Cyfathrebu â'r rhai hynny rydym yn gwasanaethu, gan eu hysbysu o'r hyn rydym yn gwneud a pham
- Casglu a dadansoddi data perthnasol i sicrhau nad ydym yn eithrio grŵp (neu grwpiau) yn ddamweiniol

Byddwn yn gwybod ein bod wedi cyflawni hyn pan fydd:

- Penderfyniadau gan yr Uwch Dîm Rheoli yn cynnwys ystyriaethau cydraddoldeb yn ddiamheuol
- Aseidiadau ar gyfer risgiau cydraddoldeb yn cael eu cynnal mewn modd cymwys, gyda gwelliannau'n cael eu nodi a'u gweithredu
- Cysylltiadau rhwng data, adborth a newidiadau wedi'u gwneud yn glir, yn rhydd rhag jargon ac yn weladwy i'n cymunedau
- Adborth gan gymunedau sydd ar y cyrion a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn dangos ein bod wedi gwella
- Digwyddiadau ac ymgynghoriadau a wnaed gennym mewn partneriaeth ag eraill wedi cynyddu
- Canlyniadau ein hymgylltiadau wedi'u rhannu'n eang

Canlyniadau Cydraddoldeb Strategol - Pobl

Beth fyddwn yn gwneud?

Dod yn gyflogwr gall pob un o'n cymunedau weld eu hunain yn rhan ohono.

Bod yn weithle lle gall pob gweithiwr deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Byddwn yn cyflawni hyn wrth:

- Fynd i'r afael â rhwystrau mewnol ac allanol wrth i ni ddod yn wir gyflogwr cynhwysol dewisol
- Atynnu nifer uwch o geisiadau gan bobl o fewn grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol
- Adeiladau ymddiriedaeth a gwerthfawrogi'r staff cyfan
- Adolygu ein diwylliant mewnol cyfredol
- Wrando ar adborth gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol
- Gynyddu sgiliau gweithwyr cyfredol a gweithwyr y dyfodol
- Ddyrchafu telerau ac amodau lle bynnag fo'n bosib
- Hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer cynnydd
- Gefnogi a chadw ein staff
- Ddarparu gweithgareddau dethol a hyrwyddo recriwtio sy'n bwrpasol

Byddwn yn gwybod ein bod wedi cyflawni hyn pan fydd:

- Safbwyntiau, camau a sylwadau sy'n mynd yn groes i'n Hamcanion a'n Gwerthoedd yn cael eu tacio
- Adborth cadarnhaol yn cael ei dderbyn mewn perthynas â morál gan bob rhan o'r sefydliad
- Data ceisiadau swydd yn dangos cynnydd ar draws pob Nodwedd Warchoddedig
- Gwasanaethau cynnal mewnol yn cael eu defnyddio mwy nag yn ystod y flwyddyn flaenorol
- Gweithrediad system werthuso sy'n cwrdd ag anghenion y Gwasanaeth a'r gweithiwr ill dau

Canlyniadau Cydraddoldeb Strategol - Isadeiledd

Beth fyddwn yn gwneud?

Sicrhau ein bod yn cyflawni ein Dyletswyddau Cyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb (2010) ag unrhyw ddeddfwriaeth Gymreig perthnasol.

Gwella'r isadeiledd i gefnogi cyflogwr cynhwysol unfed ganrif ar hugain yn well.

Byddwn ni'n cyflawni hyn wrth:

- Gyhoeddi adroddiadau ynghynt na'u terfynau amser
- Weithio ag eraill i rannu dysg ag adnoddau
- Lobïo am ddatrysiadau creadigol i amddiffyn Gwasanaeth Tân unfed ganrif ar hugain i'r dyfodol
- Ymchwilio i offer, patrymau gwaith a thechnoleg sy'n cefnogi cynhwysiant ac yn dyrchafu'r hyn rydyn ni'n gwneud
- Wella cydymffurfiaeth â Deddf Cydraddoldeb (2010)
- Gefnogi busnesau/cyflenwyr Cymreig (lle bo'n bosib)
- Barhau i gyflawni hyfforddiant Iaith Gymraeg

Byddwn yn gwybod ein bod wedi cyflawni hyn pan fydd:

- Adroddiadau ar ein gwefan (yn Saesneg a Chymraeg ill dau) cyn y terfynau amser cyfreithiol ac wedi'u cyfeirnoddi o fewn y Cynllun Corfforaethol
- Buddion ein cydweithio â phartneriaid yn fesuradwy a chyffyrddadwy i'r cymunedau ar y cyrion rydym yn gwasanaethu
- Monitro yn dangos gwelliant wrth gyflawni ein gofynion o dan gyfraith
- Adborth staff a chymunedau yn dyst i welliannau
- Cytundebau a thendrau llwyddiannus yn dangos cynnydd mewn busnesau/cyflenwyr lleol a ddefnyddiwyd

Beth sydd nesaf?

Cyhoeddir ein Hadroddiad Cydraddoldeb a'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn flynyddol. Yma, cewch weld sut ydym yn datblygu gyda'r pum canlyniad a beth rydym yn chwilio i wneud yn ystod y flwyddyn ganlynol.

Cyhoeddwyd ar ein gwefan yn flynyddol erbyn Mawrth yr 31ain ac wedi'i hyrwyddo ar ein cyfryngau cymdeithasol.

Gwiriwch ein tudalen amrywiaeth am ragor o wybodaeth.

www.decymru-tan.gov.uk/pwy-ydym-ni/cydraddoldeb-ac-amrywiaeth

Cysylltwch â ni

Yr Uned Amrywiaeth,
Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru,
Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX

amrywiaeth@decymru-tan.gov.uk

Fersiynau amgen

Os hoffech y wybodaeth hon mewn iaith neu fformat amgen megis print mawr, laith y Deillion neu ar ffurf awdio, cysylltwch â ni.

Yr Iaith Gymraeg

Rydym yn awyddus i wasanaethau'n effeithiol y rhai hynny sy'n dewis byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg. O ganlyniad i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, cyflwynwyd Rhybudd Cydymffurfiaeth Safonau'r Gymraeg i Awdurdod Tân ac Achub De Cymru gan Gomisiynydd y Gymraeg. Cyhoeddwyd y Rhybudd Cydymffurfiaeth hwn ar ein gwefan ac mae'n cyflwyno manylion ynghylch pa wasanaethau gall dinasyddion ddisgwyl derbyn yn Gymraeg. Rydym yn chwilio i ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i wella safon gyfansymiol y gwasanaeth a ddarperir, gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg.

Lleisia dy farn

Rydym yn chwilio'n barhaol am ffyrdd o wella ein gwasanaethau a chyflwyno gwybodaeth sy'n ystyrlon. I gyflawni hyn, rydym am sicrhau yr ystyri eich safbwyntiau wrth ddarparu ein gweithgareddau a chyflwyno gwybodaeth i chi.

Ysgrifennwch atom

Perfformiad Gwasanaeth a Chyfathrebu,
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru,
Parc Busnes Forest View,
Llantrisant,
CF72 8LX

Galwch ni

01443 232000



Gwefan

www.decymru-tan.gov.uk



@TanDeCymru



@TanDeCymru



@sw_fire_and_rescue

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg - byddwn yn ymateb yn gydradd i'r ddau a byddwn yn ateb yn eich dewis iaith yn ddi-ymdroi

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru



South Wales
Fire and Rescue Service